# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 2 Mawrth 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Pat Jones, Gwyneth Kensler, Pete Prendergast a Huw Williams

Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Cydlynydd Archwilio (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn bresennol:
Sefton Brennan, Arweinydd Adrannol (Canolog), Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu Gogledd Cymru
Mandy Cook, Rheolwr Gwasanaethau Newydd-enedigol
Alison Cowell, Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog Cynorthwyol Gwasanaethau Plant
Fiona Giraud, Pennaeth Bydwreigiaeth a Chyfarwyddiaeth Merched

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Arwel Roberts a Bill Tasker
Y Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol - Oedolion a Gwasanaethau Plant)
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 19 Ionawr 2017.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.*

## 5 DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU MAMOLAETH A MERCHED/ UNED GOFAL DWYS NEWYDDANEDIG IS-RANBARTHOL YN YGC

Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr canlynol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC); Alison Cowell, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Ganolog - Gwasanaethau Plant, Fiona Giraud, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Bydwreigiaeth a Merched a Mandy Cook, Rheolwr y Gwasanaeth Newyddanedig i'r cyfarfod. Amlinellodd y cynrychiolwyr i'r Pwyllgor y cynnydd hyd yma o ran datblygiad y Gwasanaethau Mamolaeth, y Gwasanaethau Merched a'r Uned Gofal Dwys Newyddanedig Is-ranbarthol (SuRNNIC).

Yn ei chyflwyniad, diweddarodd Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Bydwreigiaeth a Merched y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yma gan y Gyfarwyddiaeth Bydwreigiaeth a Merched mewn perthynas â'r cynllun gwella mesurau arbennig, yn enwedig mewn perthynas â phedwar maes penodol:

- Arweinyddiaeth: roedd y gwasanaethau bydwreigiaeth a merched bellach yn cael eu rheoli ledled Gogledd Cymru er mwyn cynorthwyo'r gwaith o fonitro'r gwasanaethau. Roedd gan y tri ysbyty cyffredinol unedau mamolaeth, gydag arweinydd clinigol wedi'i benodi i bob uned. Roedd y strwythur arweinyddiaeth sydd bellach ar waith yn cydymffurfio â gofynion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr. Roedd Bydwraig Ymgynghorol newydd gael ei phenodi ar gyfer Ardal Bwrdd Iechyd BIPBC, a hynny yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Gweithlu: cafwyd problem staffio genedlaethol wrth gynnal rotâu meddygol gradd ganolig. Profodd BIPBC fodel newydd yn llwyddiannus a arweiniodd ato i allu recriwtio tair swydd ymgynghorol yn y Gyfarwyddiaeth. Yn ogystal, cryfhawyd cytundebau llywodraethu mewn perthynas â materion y gweithlu;
- Diwylliant: yn dilyn penderfyniad i symud myfyrwyr hyfforddiant bydwreigiaeth y drydedd flwyddyn o safle Ysbyty Glan Clwyd, rhoddwyd cynllun cyflawni at ei gilydd gyda'r bwriad o wella'r amgylchedd dysgu ar y safle. Byddai'n cymryd hyd at 12 mis i roi'r cynllun ar waith yn llawn, ond roedd rhai o fyfyrwyr Prifysgol Bangor eisoes wedi dychwelyd i'r safle i barhau â'u hastudiaethau. Dynodwyd dau faes penodol ar gyfer gwelliant yn safle Ysbyty Glan Clwyd, eu bwriad oedd cynyddu nifer y mamau oedd yn bwydo'u plant ar y fron (nid oedd hyn yn unigryw i Ysbyty Glan Clwyd) a lleihau nifer y genedigaethau toriad Cesaraidd yn yr ysbyty (yn hanesyddol, roedd Ysbyty Glan Clwyd yn cyflawni mwy o enedigaethau Cesaraidd nag unedau mamolaeth cymharol eraill). Roedd angen i swyddogion roi gwybod am berfformiad yn erbyn y camau gwella hyn i'r Prif Swyddog Nyrsio ym mis Tachwedd bob blwyddyn;
- Cydymffurfiaeth: cafwyd gwelliant nodedig yn y maes hwn. Roedd y Gwasanaeth bellach yn cael ei fonitro ledled Gogledd Cymru bob pedair awr. Yn ogystal, cyfarfu'r swyddogion gyda Llywodraeth Cymru bob pythefnos mewn perthynas â materion cydymffurfiaeth.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd cynrychiolwyr BIPBC:

- Roedd gan Ysbyty Glan Clwyd un theatr Obstetreg pwrpasol ac yn achos llawdriniaethau Cesaraidd mewn argyfwng, 30 munud oedd y targed, gyda

phob achos yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i flaenoriaethu yn unol â hynny. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y pryd i asesu gofynion adnoddau i'r dyfodol, gan gynnwys darpariaeth theatr ac anesthetydd ac ati;

- Yn hanesyddol, Ysbyty Glan Clwyd oedd â'r cyfraddau genedigaethau Cesaraidd uchaf yng Ngogledd Cymru. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i hybu genedigaethau naturiol lle bo'n briodol ac i leihau nifer yr ymyriadau diangen. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Fydwraig Ymgynghorol yn yr ysbyty;
- Er na sefydlwyd cyswllt amlwg rhwng amddifadedd a chyfraddau'r genedigaethau Cesaraidd, roedd cyswllt rhwng gordewdra a genedigaethau Cesaraidd. O ganlyniad, gan fod gan ryw 25% o famau beichiog yng Ngogledd Cymru Indecs Màs y Corff (BMI) o 35 neu'n uwch, roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o addysgu mamau beichiog ynghylch cynnal ffyrdd o fyw iach;
- Roedd gwasanaethau merched, gan gynnwys y gwasanaethau canser, yn cael eu datblygu ledled Gogledd Cymru gyda'r bwriad o gydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynecolegwyr. Roedd datblygiad yr Uned SuRNNIC yn seiliedig ar yr un egwyddorion gyda'r bwriad o gyflawni'r safonau gorau yn y DU;
- Safai'r cyfraddau bwydo ar y fron presennol ar 56%, gyda'r ffigur targed ar 70%. Roedd cyfraddau Ysbyty Glan Clwyd yn gyfartal â nifer yr unedau mamolaeth eraill ar draws y sir. Tynnodd adroddiad pediatrig a gyhoeddwyd yn ddiweddar sylw at y ffaith fod cyfraddau bwydo ar y fron isel yn broblem genedlaethol a galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Strategaeth Bwydo ar y Fron. Byddai cymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cael ei geisio i ymgymryd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fanteision bwydo ar y fron;
- Gwariwyd 92% o gyllideb y Gyfarwyddiaeth ar gostau staffio, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn staff gweithredol a gefnogwyd gan dîm bach o staff gweinyddol ar draws Gogledd Cymru;
- Cydymffurfiodd y Bwrdd â'r safonau cenedlaethol o ran nifer y nyrsys a'r bydwragedd a ddarparodd wasanaethau ar draws ei ardal; ac
- Roedd disgwyl i 33 bydwraig newydd gymryd swyddi ym mis Medi 2017, a gydymffurfiodd â'r niferoedd y gofynnodd y Gwasanaeth amdanynt

Wedyn, diweddarodd Rheolwr SuRNNIC y Pwyllgor ar ddatblygiad yr uned ranbarthol newydd yn Ysbyty Glan Clwyd gan roi gwybod mai:

- Nod y datblygiad oedd cael canolfan ragoriaeth i bob baban newydd-anedig sâl yng Ngogledd Cymru;
- Pan fyddai'r babanod yn ddigon da, bydden nhw'n cael eu trosglwyddo i'w hunedau babanod gofal arbennig agosaf ym Mangor neu Wrecsam, gyda'r babanod lleol i ardal Ysbyty Glan Clwyd yn aros ar y safle;
- Byddai'r Uned SuRNNIC yn cael ei staffio gan dîm o arbenigwyr newydd-anedig. Byddai'r Uned a'r ddwy uned gofal arbennig i fabanod yn gweithio fel rhwydwaith i gyflawni gwasanaethau gofal arbenigol i famau a babanod gan ddilyn yr un canllawiau ac arferion;
- Byddai'r uned yn cynnwys uned asesu 24 awr lle gallai cleifion gael eu derbyn yn uniongyrchol neu eu trosglwyddo o ysbyty arall;

- Byddai'r staff yn SuRNNIC yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol fel SANDS (Stillbirth and Neonatal Death Charity) mewn perthynas â gwasanaethau galar a chymorth;
- Roedd gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar yr adeilad 'newydd'. Pan fyddai'n barod, byddai'r staff a'r cleifion o'r Uned Babanod Gofal Arbennig cyfredol yn symud i mewn i alluogi'r 'hen' ran i gael ei hadnewyddu cyn i'r ddau strwythur gael eu huno a'u hagor fel yr uned SuRNNIC newydd;
- Cafwyd diddordeb brwd yn yr ymarfer recriwtio i staff yr Uned. Hyd yma, recriwtiwyd 5 gweithiwr babanod newydd-anedig, gyda disgwyl i chweched swydd gael ei hysbysebu yn y dyfodol agos. Yn ogystal, recriwtiwyd 5 ymarferwr babanod newydd-anedig ac roeddent yn y broses o ddatblygu eu sgiliau ar y cyd â Phrifysgol Bangor a byddent yn cael y sgiliau angenrheidiol erbyn y gwanwyn 2018, pan fyddai disgwyl i'r Uned agor.
- Roedd offer newydd ar archeb, gan gynnwys uned gofal dwys symudol a fyddai ar gael am 12 awr y dydd. Ar gyfer adegau pan nad oedd yr uned ar gael, roedd cytundeb ar waith rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Ambiwlans Sir Gaer, Glannau Merswy a Manceinion er mwyn iddynt ddarparu darpariaeth allan o oriau.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, gwnaeth swyddogion BIPBC:

- Gadarnhau bod angen dull partneriaeth rhwng gwahanol sefydliadau'r sector cyhoeddus gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra a lleihau'r risgiau o glefyd y siwgr Math 2 ac ati. Gallai plant fod yn arf effeithiol o ran perswadio rhieni i newid eu ffyrdd o fyw, eu harferion bwyta ac ymarfer corff ac ati;
- Cynghori nad oedd difrod i'r ffetws gan gyffuriau'n broblem, ond roedd difrod i'r ffetws drwy alcohol yn broblem lawer yn fwy ac roedd bydwragedd yn cael eu hyfforddi i adnabod y problemau hynny pan oedd babanod yn cael eu geni;
- Cadarnhau bod bydwragedd yn gweithio gyda mamau beichiog i'w rhybuddio a'u haddysgu mewn perthynas â'r risgiau o yfed alcohol tra'n disgwyl i'r plentyn yn y groth;
- Rhoi gwybod bod y Bwrdd Iechyd yn cynnig geni yn y cartref ac yn hyrwyddo argaeledd unedau mamolaeth dan arweiniad bydwragedd oedd ar gael i famau a adnabuwyd fel rhai mewn 'risg isel' o gymhlethdodau. Roedd y rhain ar gael yn ysbytai cymunedol Dinbych, Pwllheli a Thywyn ar hyn o bryd.

Wrth gloi'r cyflwyniad, diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd am fynychu a chawsant eu llongyfarch ar y gwelliannau a gyflawnwyd hyd yma mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Ferched ar draws Gogledd Cymru a dymunodd yn dda iddynt o ran datblygiad yr Uned SuRNNIC.

## 6 GWASANAETH TU ALLAN I ORIAU MEDDYGON TEULU

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Sefton Brennan, Arweinydd Uwch Adran (Canolog), Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu Gogledd Cymru, i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Brennan wybodaeth ystadegol fanwl oedd yn cynnwys:

- Y ffaith yn ystod mis Ionawr 2017 fod 99.4% ac ym mis Chwefror 2017 fod 99.1% o oriau staffio'r Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu wedi'u llenwi, gyda dim ond 1 sifft heb ei llenwi ym mis Ionawr a 2 ym mis Chwefror. Roedd y rhain heb eu llenwi oherwydd salwch staff;
- Yn hanesyddol, yn ystod y 12 mis cyn hynny, ar wahân i gyfnod y gwyliau, roedd yr oriau staff a lenwyd oddeutu'r 90% uchel;
- Roedd gan y Gwasanaeth bellach 43 meddyg teulu'n gweithio iddo, o gymharu â 29 ym mis Mehefin 2015. Er nad oedd ambell i feddyg teulu oedd yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau'n perthyn i ymarfer meddyg teulu penodol, roedd yr holl feddygon teulu'n gweithio'n gyson yn ardal y Bwrdd Iechyd;
- Ar gyfartaledd, deliodd y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu'r Uwch Adran Ganolog â rhyw 3,600 o gleifion y mis. Fodd bynnag, yn ystod mis Rhagfyr 2016, deliodd y Gwasanaeth â'i nifer uchaf o gleifion mewn un mis ers 4 blynedd;
- Er gwaetha'r ffaith bod y Gwasanaeth ond ar gael am 70% o'r amser yr oedd Adrannau Argyfwng yr ysbyty ar gael, deliodd â mwy o gleifion na'r Adrannau Argyfwng. Mae Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu ledled Gogledd Cymru'n delio â rhyw 10,000 o gleifion y mis.
- Un maes yr oedd y Gwasanaeth yn tanberfformio ynddo oedd cwblhau dogfennau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig, yn enwedig mewn achosion lle nad oedd angen ymyrraeth. Serch hynny, roedd perfformiad Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu'r Adran Ganolog yn gyson â pherfformiad cyfartalog Cymru gyfan;
- Roedd meddyg teulu bellach yn gweithio yn yr Adran Argyfwng rhwng 10am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar yr Adran a'u rhyddhau nhw i ddelio â gwir argyfyngau. Teimlwyd bod y dull hwn o fantais gan fod angen rhyw fath o sylw neu ymyrraeth ar sefyllfa pob claf unigol, a gallai'r meddyg teulu yn yr Adran Argyfwng asesu cyflwr y claf i benderfynu a oedd yn deilwng o'i dderbyn fel achos argyfwng i'r ysbyty neu gam arall. Yn ogystal, calonogodd y cleifion oherwydd eu bod yn cael eu gweld a'u trin gan weithiwr meddygol proffesiynol;
- Oddeutu 5% oedd y cyfraddau atgyfeirio gan Wasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu i Ysbytai Cyffredinol yr ardal, a olygai bod 95% o gleifion yn cael eu gweld gan y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu nad oedd angen eu derbyn i'r ysbyty fel mynediad argyfwng;

Roedd y Gwasanaeth yn ymdrechu'n gyson i wella'i wasanaethau i gleifion ac yn ymdrechu i gyflwyno profiad o wasanaeth iechyd mwy holistaidd a di-dor i'r claf. Roedd y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â darparwyr gwasanaeth iechyd a sefydliadau gwirfoddol eraill e.e. Adrannau Argyfwng, Ysbytai Ardal Cyffredinol, Fferyllwyr, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Gwasanaeth Nyrsio Marie Curie. Darparodd Mr Brennan enghreifftiau o'r gwaith hwnnw, er enghraifft gweithio i wella amserau ffonio'n ôl gan nyrsys brysbennu er mwyn calonogi'r cleifion ac atal ymweliadau diangen i adrannau argyfwng a gweithio gyda chleifion i'w helpu i ddewis y llwybr cywir i fodloni eu hanghenion iechyd a lles cymdeithasol, gan fod oddeutu 9% o faich gwaith Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu'n atgyfeiriadau o'r Adran Argyfwng neu WAST. Yn ogystal, roedd y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu wedi ailddechrau

gweithio gyda'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal, roedd 1 Nyrs Ardal wrthi'n gweithio yn y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 24 awr y dydd.

Yn ddiweddar, cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o'r holl Wasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu yng Nghymru. Roedd yr adborth cychwynnol o'r archwiliad yn ffafriol, gan ddynodi mai'r gwasanaeth a ddarperir yn Uwch Adran Ganolog Gogledd Cymru, oedd yn ymestyn dros Gonwy a Sir Ddinbych, oedd yr un cryfaf yng Nghymru ac yn un oedd yn dangos arferion da. Nododd arolwg bodlonrwydd diweddar yn yr Uwch Adran fod 90% o'r cleifion o'r farn fod y gwasanaeth a gawsant naill ai'n rhagorol neu'n dda (gyda 70% yn ei raddio'n rhagorol ac 20% yn ei raddio'n dda). Roedd yr unig sylwadau negyddol yn gysylltiedig â diffyg ardal aros i blant yn yr Adran Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu ac nad oedd pob cyffur a roddwyd ar bresgripsiwn ar gael ar y safle, oedd yn golygu bod angen i'r claf eu casglu o fferyllydd allanol.

O ymateb i gwestiynau'r Aelodau, rhoddodd yr Arweinydd Adrannol wybod fod:

- Newid yn rheoliadau Llywodraeth Cymru yn 2010 wedi'i wneud yn ofyniad i bob Bwrdd Iechyd ddarparu Gwasanaeth tu allan i oriau meddygon teulu eu hunain yn hytrach na chontractio'r gwaith allan i ddarparwyr allanol. Yn ardal BIPBC, roedd Gwasanaeth tu allan i oriau Meddygon Teulu yn un gwasanaeth ar draws y rhanbarth, a gyflawnwyd mewn tair adran ar wahân;
- Blaenoriaethwyd pob claf, boed yn blant neu'n oedolion, trwy system brysbennu. Byddai'r alwad gyntaf yn mynd i drafodwr galwadau hyfforddedig a fyddai'n defnyddio algorithm i benderfynu ar ofynion y claf ac yn ei gyfeirio at ymarferwr a fyddai'n ffonio'n ôl ymhen 20 munud gyda cham gweithredu arfaethedig. Roedd y dull hwn yn cynnig diogelwch i bob galwr;
- Adroddodd mwyafrif y galwadau a ddaeth i law ar symptomau fel problemau resbiradol, chwydu a dolur rhydd, poen yn y cefn, poen yn yr abdomen, anghofio archebu presgripsiwn arall ac ati.;
- Er gwaetha'r ffaith fod y Gwasanaeth wedi ymdrin â thros 5,000 o gleifion yn ystod mis Rhagfyr, arhosodd canran y galwyr hynny a gyfeiriwyd at yr Adran Argyfwng yn sefydlog ar 5%;
- Bu'r ffigurau defnydd ar gyfer y Gwasanaeth yn cynyddu ac roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda meddygfeydd meddyg teulu mewn perthynas ag argaeledd yr apwyntiadau meddyg teulu;
- Er gwaetha'r ffaith nad oedd gan Wasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu fynediad i gofnodion meddygol llawn y cleifion, ac y bu'n rhaid iddo ddibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan y claf o ran eu hanes meddygol, roedd nifer y cwynion a gofnodwyd yn erbyn y Gwasanaeth yn isel iawn;
- Llinell gymorth oedd llinell ffôn Galw Iechyd Cymru a fodolai i roi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd, ni allai ragnodi meddyginiaeth na phenderfynu ar gam gweithredu.

Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd y Pwyllgor i Arweinydd yr Uwch Adran am fynychu a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar y Gwasanaeth, a:

***PENDERFYNWYD*** *darparu adroddiad cynnydd arall i aelodau etholedig maes o law, o bosibl ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST).*

**Cafwyd egwyl o 15 munud yn y fan hon (11.25am).**

**Ailalwyd y cyfarfod am 11.40am.**

## 7 LANSIO YMGYNGHORIAD AR ASESIAD LLES BGC CONWY A SIR DDINBYCH.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan fod arweiniad statudol yn datgan bod rhaid gwneud ymgynghoriad ar ei gynnwys a bod Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod Lleol yn ymgynghorai statudol.

Disgrifiodd yr Arweinydd y broses a gyflawnwyd i lunio'r adroddiad, ei strwythur a'i argaeledd, ynghyd â'r broses barhaus ar gyfer cynnal a chadw. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd yr Asesiad Lles a'r pwyslais cynyddol ar "les" a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn lleol ac yn genedlaethol.

Rhoddodd Reolwr Tîm Cynllunio Strategol y Cyngor drosolwg o sut casglwyd y wybodaeth ynghyd ag arddangosiad o'r Asesiad Lles seiliedig ar y we. Roedd hyn yn cynnwys y data yn yr asesiad ar lefel gymunedol, sirol ac ardal y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Rhoddodd wybod, yn y dyfodol, y byddai disgwyl i bob awdurdod cyhoeddus yn ardal y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ddefnyddio'r wybodaeth yn yr asesiad lles wrth osod eu hamcanion lles ac wrth lunio cynlluniau a strategaethau ar gyfer gwasanaethau ac ar gyfer yr ardal. Roedd y swyddogion wrthi'n datblygu strategaeth gyfathrebu i lunio'r Asesiad a'i bwysigrwydd i sylw'r holl bobl a rhanddeiliaid perthnasol. Byddai'r Asesiad yn datblygu'n gyson ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ond o'r herwydd, ni fyddai'n benthyg ei hun yn dda i gael ei gyhoeddi fel dogfen copi caled. Fodd bynnag, petai aelod eisiau manylder penodol o fewn yr Asesiad, gallai adrannau penodol gael eu hargraffu at y diben hwnnw, gyda chafeat eu bod yn destun newidiadau cyson.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, rhoddodd yr Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol wybod:

- Y byddai'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn cyfarfod ar 27 Mawrth 2017 i drafod ymatebion yr ymgynghoriad, ac felly bydden nhw'n gwerthfawrogi cael arsylwadau'r aelodau ar yr Asesiad Lles erbyn 24 Mawrth 2017;
- Yn y dyfodol, byddai'r Asesiad Lles yn ffurfio sail y Cyngor a gweithgareddau cynllunio strategol ei bartneriaid ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad eu cynlluniau. Byddai'n gofyn am newid diwylliannol yn y ffordd yr oedd yr holl bartneriaid yn gweithio ac yn cydweithio at y diben o wneud y sir ac ardal y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn lle gwell, gyda darparwyr gwasanaeth yn anelu at gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion;
- O ganlyniad i'r uchod, roedd hi'n hanfodol i'r holl wasanaethau a grwpiau o fewn y Cyngor fod yn ymwybodol o fodolaeth yr Asesiad Lles ac yn cytuno ei egwyddorion;
- Wedi cadarnhau bod angen rhagor o waith o ran proffiliau cymunedol unigol ar wefan yr Asesiad. Byddai'r maes hwn yn cael ei boblogi fel rhan o waith cynnal a chadw parhaus y wefan;

- Byddai angen i'r Cyngor hefyd herio a monitro ymrwymiad sefydliadau partner eraill y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr Asesiad Lles wrth lunio'u cynlluniau strategol ac ati.

Mewn ymateb i'r pwynt olaf rhoddodd y Cydlynydd Archwilio wybod fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu sefydliad allanol i ddatblygu arweiniad ar sut i archwilio cyflawniad y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus o ofynion nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithiol. Roedd disgwyl i'r arweiniad drafft gael ei gylchredeg i Swyddogion Archwilio yng Nghymru am ymgynghoriad yn y dyfodol agos. Roedd disgwyl i Swyddogion Archwilio Gogledd Cymru gyfarfod ar ddiwedd mis Mawrth i ystyried yr arweiniad drafft a darparu eu harsylwadau ar ei gynnwys.

Gofynnodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor, fel y pwyllgor dynodedig ar gyfer Archwilio'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, yn monitro'n agos ymrwymiad partneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i ddefnyddio'r Asesiad Lles ar gyfer eu gwaith cynllunio strategol.

Cyn cloi'r drafodaeth, gofynnodd yr Aelodau bod sesiwn hyfforddiant yn cael ei chynnal i bob cynghorydd ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yr Asesiad Llesiant, yn gynnar yn ystod tymor y Cyngor Sir newydd, ar ôl etholiadau Awdurdod Lleol mis Mai, gyda hyfforddiant ychwanegol ar y ddau'n cael eu darparu'n gyfnodol yn ystod tymor y Cyngor. Teimlwyd bod angen hyn er mwyn ymgorffori diwylliant ac egwyddorion newydd y Ddeddf yn gadarn yn yr Awdurdod.

Gwnaeth y Pwyllgor:

***BENDERFYNU*** *bod yr arsylwadau uchod a'r argymhellion canlynol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant:*

*(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cymeradwyo'r dull a gymerwyd wrth ddatblygu'r Asesiad Llesiant a'r syniadau ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol;*
*(ii) bod y data sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Lles yn cael ei ddiweddaru'n gyson, a bod argymhelliad yn cael ei roi i bob sefydliad partner y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ddefnyddio'r wybodaeth yn yr Asesiad Lles fel sail ar gyfer eu gweithgareddau cynllunio strategol i'r dyfodol;*
*(iii) wedi cadarnhau bod yr aelodau wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaeth; a*
*(iv) bod Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad Lles yn cael ei ysgrifennu er mwyn rhoi trosolwg o'i ddiben a'i gynnwys a bod rhaglen o ddigwyddiadau a deunyddiau hyfforddiant ar egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys diben a phwysigrwydd yr Asesiad Lles, yn cael ei drefnu a'i gyflwyno i'r holl Gynghorwyr ar ôl etholiadau Awdurdod Lleol mis Mai 2017.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a ofynnodd i'r Pwyllgor adolygu a chytuno'i Flaenraglen Waith ac a ddarparodd ddiweddariad ar y materion perthnasol, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cafodd copi o dempled "ffurflen gynnig yr Aelod" ei gynnwys yn Atodiad 2, cafodd Blaenraglen Waith y Cabinet ei gynnwys yn Atodiad 3, ac mae tabl yn crynhoi atebion diweddar y Pwyllgor ac yn rhoi cyngor ar gynnydd o ran eu gweithrediad ynghlwm yn Atodiad 4.

Ni chyfeiriwyd unrhyw eitemau at y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 6 Ebrill a byddai'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Bobby Feeley yn cael ei wahodd i fynychu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Blaenraglen Waith yn cael ei gymeradwyo.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cadarnhaodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler iddi fynychu'r Her Gwasanaeth Cyllid.

Croesawodd yr Aelodau'r cadarnhad gan y Prif Weithredwr y byddai'r broses her gwasanaeth yn parhau yn ystod tymor y Cyngor newydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.**